# Agor y Llyfr ar ei newydd wedd



Dros y degawd a aeth heibio mae miloedd o blant Cymru wedi clywed storïau o'r Beibl yn cael eu cyflwyno ger eu bron mewn ysgolion cynradd. Datblygwyd Agor y Llyfr yn Gymraeg o adnodd Saesneg llwyddiannus yn dwyn yr enw Open the Book. Lansiwyd Open the Book yn wreiddiol fel ffordd o rannu hanesion o'r Beibl mewn ysgolion cynradd, a hynny gan griw o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi. Criw o weithwyr plant mewn esgobaeth yn ne Lloegr a ddatblygodd y cynllun yn wreiddiol 'nôl yn y nawdegau, ac fe wnaethon nhw fabwysiadu cyfrol o straeon Beiblaidd wedi eu paratoi gan Bob Hartman, ac a gyhoeddwyd fel cyfrol hardd gan gwmni cyhoeddi Lion Publishing, sef *The Lion Storyteller Bible*. Aeth y criw o wirfoddolwyr ati



wedyn i ysgrifennu cyflwyniadau byr i bob un o'r 60 stori yn y gyfrol, ynghyd â gweddi i gloi'r sesiwn. Yn ychwanegol at hyn, paratowyd nodiadau manwl ar sut i gyflwyno'r hanesion mewn ffordd greadigol a hwyliog.




Dyma ddechrau ar gynllun a ddatblygodd i fod yn adnodd hynod effeithiol, ac o fewn degawd gwelodd Cymdeithas y Beibl ei werth, gan gymryd perchnogaeth ohono. Yng Nghymru lansiwyd y cynllun yn Gymraeg gan Gyhoeddiadau'r Gair yn 2010, gyda Cynthia Saunders Davies yn mynd ati i baratoi'r gyfrol liwgar *Beibl Newydd y Storïwr*. Erbyn hyn, mae Cymdeithas y Beibl hefyd yn gweinyddu'r cynllun yng Nghymru.

Yn dilyn cyfnod y clo daeth yn amlwg fod glynu at gyfrol wedi ei chyhoeddi gan gwmni arall yn cyfyngu ar y defnydd posib, yn arbennig o ran yr hawl i greu ffilmiau a sgriptiau i'w rhannu ar y we. Erbyn hyn, SPCK oedd yn berchen ar gwmni Lion, ac roedd goblygiadau rheolau hawlfraint yn creu problemau i Agor y Llyfr. Felly, penderfynwyd mynd ati i greu cyfrol hollol newydd o 90 o straeon Beiblaidd. Unwaith eto, gofynnwyd i Bob Hartman baratoi'r storïau, gyda Siân Roberts a Delyth Wyn yn gofalu am yr addasiadau Cymraeg.

Bydd y cynllun newydd yn cael ei lansio ar 5 Gorffennaf ym Maglan, ger Port Talbot, lle bydd Bob Hartman ei hun yn bresennol. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno yn y cyfarfod, ac i glywed sut fydd y cynllun newydd yn gweithio. Mewn cyfnod lle nad yw'r rhan fwyaf o blant Cymru yn clywed straeon Beiblaidd yn gyson, dyma gynllun gwych i gyrraedd plant mewn ysgolion ledled Cymru. Dewch i glywed mwy ac i gael eich hysbrydoli gan Bob a thîm Agor y Llyfr. Y gobaith yw sefydlu mwy o dimau Agor y Llyfr o gwmpas y wlad yn fuan.

*Aled Davies*